# Cyngor Sir Caerfyrddin
# Polisi Diogelu Data



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Llywodraethu Gwybodaeth

# Polisi Diogelu Data

**Dogfen Polisi Priodol y Cyngor yn ôl gofynion Deddf Diogelu Data 2018**

## Cynnwys


1. Deddfwriaeth Diogelu Data a data personol
2. Data personol categori arbennig a data troseddau – amodau Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU
3. Data personol categori arbennig a data troseddau – darpariaethau atodol y Ddeddf Diogelu Data
4. Diben y Polisi hwn a'i gwmpas
5. Sut rydym yn cydymffurfio â'r egwyddorion
6. Cadw a dileu data personol
7. Datganiad cydraddoldebau

# 1. Deddfwriaeth Diogelu Data a data personol

**1.1** Mae'r Cyngor yn casglu ac yn defnyddio data personol sy'n ymwneud â'n cwsmeriaid, ein cleientiaid, ein gweithwyr a'n preswylwyr yn y Sir er mwyn darparu ystod eang o wasanaethau fel awdurdod unedol. Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data ar draws ei holl wasanaethau. At ddibenion y Polisi hwn mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys:

- Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU
- Deddf Diogelu Data 2018

**1.2** Diffinnir data personol fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at 'wybodaeth adnabod'. Yn ymarferol bydd data personol yn cynnwys ystod eang o wybodaeth adnabod neu eitemau gwybodaeth, gan gynnwys enwau, cyfeiriadau, cyfeirnodau unigryw, gwybodaeth adnabod ar-lein a hyd yn oed naratif am unigolyn.

**1.3** Mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU yn nodi egwyddorion clir mewn perthynas â phrosesu data personol.

Y rhain yw:

- (a) Rhaid i ddata personol gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw
- (b) Rhaid i ddata personol gael ei gasglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon yn unig, a rhaid i unrhyw ddefnydd arall fod yn unol â'r dibenion hyn
- (c) Rhaid i ddata personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol i'r dibenion y caiff ei ddefnyddio
- (d) Rhaid i'r wybodaeth bersonol a gedwir fod yn fanwl gywir, a rhaid ei diweddaru lle bo angen
- (e) Rhaid peidio â chadw data personol yn hirach nag sydd angen mewn gwirionedd
- (f) Rhaid prosesu data personol mewn modd diogel, gan gynnwys diogelu rhag defnydd anawdurdodedig neu anghyfreithlon o ddata personol a rhag iddo gael ei golli, ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddamweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol a threfniadaeth priodol

Yn ogystal ag egwyddorion (a) i (e), mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU hefyd yn cynnwys seithfed egwyddor, sy'n ei gwneud yn ofynnol i reolydd gymryd cyfrifoldeb am yr hyn y mae'n ei wneud â data personol a sut mae'n cydymffurfio â'r egwyddorion eraill (yr 'Egwyddor Atebolrwydd’).

**1.4** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth drwy ymhwyso'r egwyddorion hyn ar draws ei holl wasanaethau.

**1.5** Mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU hefyd yn gwahardd y Cyngor rhag prosesu data personol oni bai ein bod yn gallu nodi sail gyfreithiol briodol dros brosesu hynny.

**1.6** At ei gilydd, mae'r Cyngor yn prosesu data personol ar y seiliau cyfreithlon canlynol:

- Mae'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol sydd gan y Cyngor; neu
- Er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol.

## 2. Data personol categori arbennig a data troseddau – amodau Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU

**2.1** Mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni fodloni amodau ychwanegol ar gyfer prosesu data personol categori arbennig a data euogfarnau troseddol a throseddau (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel data troseddau). Mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU yn gwahardd prosesu'r math hwn o ddata oni bai bod modd bodloni unrhyw un o'r amodau a nodir yn Erthygl 9.

**2.2** Y categorïau arbennig hyn yw data personol ynghylch:

- Hil neu gefndir ethnig
- Barn wleidyddol
- Cred grefyddol neu athronyddol
- Aelodaeth o undeb llafur
- Data genetig
- Data Biometrig
- Iechyd
- Bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol

**2.3** Diffinnir data troseddau fel gwybodaeth am honiadau, achosion neu euogfarnau troseddol.

**2.4** Mae'r Cyngor yn prosesu data categori arbennig o dan yr erthyglau canlynol o Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU:

- Erthygl 9(2)(b) - at ddibenion cyflogaeth, nawdd cymdeithasol ac amddiffyniad cymdeithasol
- Erthygl 9(2)(g) – at ddibenion budd sylweddol y cyhoedd
- Erthygl 9(2)(h) – at ddibenion iechyd a gofal cymdeithasol
- Erthygl 9(2)(i) – at ddibenion iechyd y cyhoedd
- Erthygl 9(2)(j) – at ddibenion archifo, ymchwil ac ystadegau
- Mae Erthygl 10 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddata troseddau gael ei brosesu o dan reolaeth awdurdod swyddogol neu os yw wedi'i awdurdodi gan gyfraith y DU

**2.4** Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn nodi darpariaethau sy'n ategu Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, mewn perthynas â materion megis prosesu data categori arbennig a data troseddau.

## 3. Data personol categori arbennig a data troseddau – darpariaethau atodol y Ddeddf Diogelu Data

**3.2** Mae'r Cyngor yn dibynnu ar yr amodau canlynol yn Atodlen 1, Rhan 1 o'r Ddeddf Diogelu Data mewn perthynas â phrosesu data personol categori arbennig:

- Cyflogaeth, nawdd cymdeithasol ac amddiffyniad cymdeithasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 1)
- Iechyd a gofal cymdeithasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 2)

**3.3** Mae'r Cyngor hefyd yn prosesu data personol categori arbennig o dan yr amodau canlynol yn Atodlen 1, Rhan 2 o'r Ddeddf Diogelu Data, ar sail budd sylweddol y cyhoedd:

- Dibenion statudol a llywodraeth (fel y'u diffinnir ym mharagraff 6)
- Cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal (fel y'u diffinnir ym mharagraff 8)
- Atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon (fel y'u diffinnir ym mharagraff 10)
- Diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd (fel y'i diffinnir ym mharagraff 11)
- Atal twyll (fel y'i diffinnir ym mharagraff 14)
- Gwasanaethau cwnsela, cyngor neu gymorth (fel y'u diffinnir ym mharagraff 17)
- Diogelu plant/unigolion sydd mewn perygl (fel y'u diffinnir ym mharagraff 18)
- Dibenion yswiriant (fel y'u diffinnir ym mharagraff 20)
- Pensiynau galwedigaethol (fel y'u diffinnir ym mharagraff 21)
- Cynrychiolwyr etholedig yn ymateb i geisiadau (fel y'u diffinnir ym mharagraff 23)
- Datgeliad i gynrychiolwyr etholedig (fel y'i diffinnir ym mharagraff 24)

**3.4** Caiff data troseddau ei brosesu o dan yr amodau canlynol yn Atodlen 1, Rhan 2, drwy estyniad:

- Cyflogaeth, nawdd cymdeithasol ac amddiffyniad cymdeithasol
- Dibenion statudol a llywodraeth

**3.5** Mae'r Cyngor hefyd yn dibynnu ar yr amodau canlynol a welir yn Atodlen 1, Rhan 3 o'r Ddeddf Diogelu Data i brosesu data troseddau:

- Buddion hanfodol (fel y'u diffinnir ym mharagraff 30)
- Data personol yn y parth cyhoeddus (fel y'i diffinnir ym mharagraff 32)
- Hawliadau cyfreithiol (fel y'u diffinnir ym mharagraff 33)

## 4. Diben y Polisi hwn a'i gwmpas

**4.1** I gymhwyso unrhyw un o'r amodau y cyfeirir atynt o dan adran 3 o'r Polisi hwn, rhaid i'r Cyngor fod â **Dogfen Polisi Priodol** ar waith sy'n esbonio:

- Sut rydym yn cydymffurfio â'r chwe egwyddor diogelu data a nodir yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU; ac
- Ein polisïau o ran cadw a dileu data personol a brosesir o dan yr amodau hyn.

**4.2** Diben y Polisi hwn felly yw cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol penodol hyn wrth i'r Cyngor brosesu data personol categori arbennig a data troseddau. Felly, y Polisi hwn yw'r **Ddogfen Polisi Priodol** ar gyfer y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r mesurau a'r camau a gymerir i gydymffurfio â'r egwyddorion yr un mor berthnasol i'r holl ddata personol a gedwir gan y Cyngor.

**4.3** Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr y Cyngor, gan gynnwys:

- Gweithwyr dros dro a gweithwyr asiantaeth
- Gwirfoddolwyr
- Contractwyr sy'n gweithredu fel proseswyr data

**4.4** Argymhellir hefyd bod egwyddorion y polisi hwn yn cael eu mabwysiadu a'u defnyddio gan yr holl Aelodau Etholedig ac ysgolion yr Awdurdod Addysg Lleol.

## 5. Sut rydym yn cydymffurfio â'r egwyddorion

### 5.1 Egwyddor (a) – cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder

- Mae hysbysiadau preifatrwydd ar waith ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n prosesu data personol, gan gynnwys data categori arbennig a data troseddau. Mae'r hysbysiadau hyn yn ei gwneud yn glir bod data categori arbennig a data troseddau yn cael ei brosesu ac maent yn nodi'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data personol hwn. Maent hefyd yn darparu disgrifiad o'r mathau o ddata a gaiff ei brosesu.

- Caiff yr hysbysiadau preifatrwydd hyn eu cyhoeddi'n amlwg ar wefan y Cyngor, cânt eu rhoi i'r cyhoedd pan gesglir data personol ganddynt a chyfeirir atynt mewn cyfathrebiadau eraill:

  https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/

- Caiff ein hysbysiadau preifatrwydd eu hadolygu'n rheolaidd gan bob gwasanaeth mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Diogelu Data a chânt eu diweddaru i sicrhau eu bod yn cofnodi pob gweithgaredd prosesu yn gywir.

## 5.2 Egwyddor (b) – cyfyngu ar ddiben

- Mae ein hysbysiadau preifatrwydd a'n cofnodion o weithgareddau prosesu yn nodi'n glir i ba ddibenion y caiff y data personol ei brosesu, ac yn nodi'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu hynny. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd gan bob gwasanaeth mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Diogelu Data.

- Mae hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr a Pherchnogion Asedau Gwybodaeth yn nodi'r angen i ddefnyddio data personol at ddibenion penodol a cyfyngedig yn unig, ac ymgynghorir â'r Swyddog Diogelu Data pan gaiff diben newydd ei ystyried.

- Ni fydd y Cyngor yn prosesu data personol at ddibenion sy'n anghydnaws â'r diben gwreiddiol y cafodd ei gasglu ar ei gyfer.

## 5.3 Egwyddor (c) – lleihau data

- Caiff data personol ei gasglu at ddibenion perthnasol y Cyngor yn unig ac rydym yn sicrhau nad yw hyn yn ormodol. Mae'r wybodaeth a brosesir yn angenrheidiol at ddibenion y Cyngor ac yn gymesur â hynny. Lle darperir neu dderbynnir data personol ond nad yw'n berthnasol i'n dibenion datganedig, caiff ei ddileu.

- Cynhelir adolygiadau o bryd i'w gilydd o'r data personol a gedwir mewn unedau busnes unigol a chaiff data nad oes ei angen mwyach ei ddileu, yn unol â Chanllawiau Cadw'r Cyngor.

- Mae'r Canllawiau Cadw hyn yn nodi cyfnodau cadw yn seiliedig ar rwymedigaethau cyfreithiol a'r angen i'w gadw at anghenion busnes y Cyngor.

- Bydd cydymffurfio â'r egwyddor hon yn amodol ar adolygiad Archwilio Mewnol o bryd i'w gilydd.

## 5.4 Egwyddor (d) – cywirdeb

- Ble mae hynny'n briodol, mae gan wasanaethau'r Cyngor fecanweithiau adolygu ar waith i wirio bod data personol yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol.

- Ble rydym yn dod i wybod bod data personol yn anghywir neu'n hen, gan ystyried i ba ddiben y caiff ei brosesu, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data yn cael ei ddileu neu ei gywiro yn ddi-oed. Os penderfynwn beidio â'i ddileu na'i gywiro, er enghraifft oherwydd bod y sail gyfreithlon yr ydym yn dibynnu arni i brosesu'r data yn golygu nad yw'r hawliau hyn yn berthnasol, byddwn yn cofnodi ein penderfyniad.

- Caiff unigolion eu hysbysu o'u hawl i ddileu neu gywiro ac rydym yn ystyried yn ofalus unrhyw geisiadau a dderbynnir i arfer yr hawl hon. Rydym yn cadw cofnodion o geisiadau o'r fath gan unigolion.

- Mae Rheolwyr a Pherchnogion Asedau Gwybodaeth yn destun rhaglen hyfforddi sy'n nodi eu rhwymedigaeth i adolygu, diweddaru a chywiro data personol yn rheolaidd.

- Bydd cydymffurfio â'r egwyddor hon yn amodol ar adolygiad Archwilio Mewnol o bryd i'w gilydd.

**5.5 Egwyddor (e) – cyfyngu ar storio**

- Mae'r Cyngor wedi sefydlu Polisi Rheoli Cofnodion sy'n ei gwneud yn ofynnol bod Canllawiau Cadw manwl ar waith sy'n cwmpasu ei holl wasanaethau, gan gynnwys y rheiny sy'n prosesu data categori arbennig a data troseddau**.** Mae'r rhain yn seiliedig ar ofynion cyfreithiol i gadw data personol am gyfnodau penodol, yn ogystal ag anghenion a nodwyd gan bob uned fusnes.

- Bydd y Cyngor yn defnyddio meddalwedd a fydd yn cymhwyso cyfnod cadw data personol yn ein storfa gwmwl yn SharePoint, yn unol â'r Canllawiau Cadw, ac a fydd wedyn yn dileu neu'n adolygu'r data personol sydd wedi cyrraedd diwedd ei gyfnod cadw.

- Caiff systemau a chronfeydd data eraill eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff data personol ei ddileu lle mae wedi mynd heibio i'w gyfnod cadw.

**5.6 Egwyddor (f) – uniondeb a chyfrinachedd (diogelwch)**

**Mesurau trefniadaeth**

- Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau clir ar waith sy'n ei gwneud yn ofynnol i staff gadw data personol yn ddiogel ac maent yn darparu gwybodaeth ar sut i wneud hynny:

    - **Polisi Diogeledd Gwybodaeth**
    - **Polisi Trin Data Personol**
    - **Polisi Defnyddio Dyfeisiau Symudol**
    - **Polisi Rheoli Cofnodion**

- Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd, cymerir camau i'w cyfathrebu â gweithwyr ac maent ar gael i'w gweld mewn lleoliadau amlwg ar safle mewnrwyd y Cyngor.

- Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant, ar ffurf e-ddysgu a chanllawiau eraill, sy'n rhoi pwyslais ar ddiogelwch data.

- Caiff yr holl ddata personol ei brosesu mewn adeiladau sydd wedi'u diogelu rhag mynediad i'r cyhoedd trwy gyfrwng systemau mynediad cerdyn allwedd.

- Cedwir data personol a brosesir ar ffurf papur mewn storfa dan glo yn yr ardaloedd hyn.

- Mae'n ofynnol i broseswyr a ddefnyddir gan y Cyngor weithredu mesurau trefniadaeth priodol.

**Mesurau technegol**

- Caiff y data ei storio mewn canolfannau data diogel. Mae rheolaethau ar waith i atal mynediad anawdurdodedig i adeiladau a dim ond personél awdurdodedig sy'n cael mynd i'r canolfannau data hyn. Caiff unrhyw gontractwyr y caniateir mynediad iddynt eu goruchwylio.

- Mae 'wal dân' perimedr yn rheoli'r cysylltiadau rhwng rhwydwaith mewnol y Cyngor a'r rhyngrwyd. Caiff ei defnyddio i gyfyngu ar gyfathrebu i ddau gyfeiriad i'r hyn sydd ei angen yn unig, er mwyn atal mynediad anawdurdodedig o'r rhyngrwyd ac i atal data rhag cael ei drosglwyddo heb awdurdod yn allanol.

- Ble mae'r polisïau uchod yn nodi ei bod yn ofynnol gwneud hynny, caiff data personol a anfonir at bartïon allanol ei amgryptio. Dim ond datrysiadau awdurdodedig a ddefnyddir.

- Rheolir hawliau mynediad i ddata fesul defnyddiwr a rhoddir caniatâd i ffynonellau data dim ond pan fydd hynny'n ofynnol. Caiff mynediad ei ddiddymu pan nad oes ei angen mwyach.

- Defnyddir cam dilysu dau ffactor.

- Caiff gweinyddion a rhaglenni eu diweddaru i atal camfanteisio ar wendidau hysbys a allai gael effaith negyddol ar gyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd data. Ceir hefyd feddalwedd gwrth-faleiswedd sy'n rhedeg ar bob dyfais pwynt terfyn ac yn y porth rhyngrwyd.

- Caiff y rhwydwaith ei brofi'n rheolaidd i adnabod ac yna adfer unrhyw wendidau i sicrhau bod data'n cael ei amddiffyn.

- Mae dull diogelu aml-haenog ar waith i ddarparu amddiffyniad gwydn yn erbyn seiber-ymosodiadau a diogelu'r data sydd gennym.

- Caiff yr holl systemau craidd eu hategu i atal data rhag cael ei golli ac i'w adfer mewn trychineb.

- Caiff mynediad ysgrifennu o ddyfeisiau defnyddiwr terfynol i gyfryngau symudadwy ei gyfyngu.

### 5.7 Yr Egwyddor Atebolrwydd

- Mae'r Cyngor yn cynnal ac yn adolygu cofnodion o weithgareddau prosesu ar draws ei holl wasanaethau yn rheolaidd.

- Fel y nodir yn adran 5.6 uchod, mae gan y Cyngor bolisïau priodol ar waith mewn perthynas â phrosesu data personol.

- Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer prosesu data personol sy'n debygol o arwain at risg uchel i fuddion unigolion.

## 6. Cadw a dileu data personol

**6.1** Mae'r Cyngor yn rheoli ei ddata yn unol â'i **Ganllawiau Cadw**. Cyhoeddir y rhain ar wefan a safle mewnrwyd y Cyngor ac maent yn nodi pa mor hir y dylid cadw cofnodion penodol cyn iddynt gael eu dinistrio neu eu dileu.

**6.2** Ble na nodir hynny, mae data categori arbennig a data troseddau wedi'i gynnwys o fewn mathau eraill o gofnodion.

**6.3** Caiff data personol ei ddileu neu ei ddinistrio yn unol â'n **Polisi Rheoli Cofnodion**.

## 7. Datganiad cydraddoldebau

**7.1** Rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Penodol Cymru. Wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau, rhaid i ni roi sylw priodol i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf.

- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

- Meithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

**7.2** Yn ogystal, mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i ni sicrhau 'nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' ac i sicrhau bod yr iaith yn cael ei hyrwyddo yn ein cymunedau.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, e-bostiwch **dataprotection@sirgar.gov.uk**

Cymeradwywyd y polisi gan y Cabinet: 04/11/24
Ysgrifennwyd y polisi gan: Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council